**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL**
**(Cyfarfod Arbennig)**

**13 Rhagfyr 2017**

Yn bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'R Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.30a.m. – 11.40a.m.)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr A Archer, Cynghorydd K Doolin, Ms C Gwyther, Mrs J James a'r Cynghorydd M James.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd y Cynghorydd PJ Morgan bod ganddo fuddiant personol yn y mater dan sylw.

**3. Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau**
Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod swydd wag wedi codi ar Bwyllgor Safonau yr Awdurdod yn sgîl bod un o'r Aelodau annibynnol, Mr Roger Barrett-Evans, wedi dod i ddiwedd ei dymor o wasanaeth. Roedd y swydd wag wedi cael ei hysbysebu, ac roedd un ymgeisydd wedi cael ei gyfweld gan Banel Penodi y Pwyllgor Safonau ar y $29^{ain}$ o Dachwedd 2017.

Yn unol â Rheoliad 16(2) o Reoliadau'r Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001, a'r Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, roedd y Panel wedi argymell penodi Mr John Daniels am gyfnod o 5 mlynedd yn unol â'r telerau a'r amodau a fabwysiadwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD** penodi Mr John Daniels yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 5 mlynedd i ddod i rym o'r $17^{eg}$ o Ragfyr 2017.

**4. Dymuniadau'r Nadolig**
Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf yr Awdurdod yn 2017, diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am eu cefnogaeth ac am y cyfraniad a wnaed ganddynt i redeg yr Awdurdod yn hwylus yn ystod 2017. Manteisiodd ar y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.